COVID-19 Update: 22nd June
In today's COVID-19 update from Cardiff Council: 'Real Change' – a new campaign aimed at building on the recent success in helping vulnerable people off the streets; the Council's outdoor sports and leisure courts are reopening; top 5 tips for pest control this summer; and Cardiff parents benefit from positive support provided by Parents First.

Time for Real Change

A new campaign aimed at building on the recent success in helping vulnerable people off the streets is being launched in the city today.

The Real Change campaign seeks to maintain the progress achieved by homelessness services during the lockdown period when the number of people sleeping rough dropped to single figures and more people than ever before started accessing life-changing services available in the city.

The Council and its partners are determined not to lose the positive momentum achieved in supporting people away from life on the streets, as the city centre begins to exit lockdown. All partners are encouraging the public to support real, lasting change for the vulnerable people who they see on the street.

The campaign asks people not to give their spare change to those begging on the street, but instead to signpost vulnerable people to the services that can deliver real change in their lives.

Anyone with concerns about a person they see on the streets is being urged to send for help by texting 'REALCHANGE' to 80800, giving the location of that person. The city's homeless outreach team will then be sent to check on the individual to encourage them to come in off the streets.

Considerable success has been achieved in housing homeless people over the last three months, with only a handful of very entrenched rough sleepers remaining outside. A large amount of good quality accommodation has been made available, including in two large hotels, and health and support services have been made available to help these vulnerable clients to address their underlying needs.

Good work was already underway to reduce rough sleeping in the city thanks to the work of the award winning Multidisciplinary Homeless Outreach Team, but since the introduction of lockdown measures, more vulnerable clients than ever before are engaging with services, including drug replacement and therapeutic services.

Greater availability of accommodation and support has been a key factor in this change and the Council is committed to ensuring that this extra provision continues after the crisis is over. However another key change has been lack of begging opportunities during lockdown with less people drawn to the city centre.

Real Change seeks to raise awareness of Cardiff's wide range of services to support people on the path away from life on the streets and the success that has been

achieved recently in making a real difference to people's lives. The campaign aims to increase public understanding of how best to support this work and how without the right interventions, individuals can remain outside, trapped in a harmful lifestyle.

Cabinet Member for Housing and Communities, Cllr Lynda Thorne, said: "Since lockdown measures came into force, we have helped 473 individuals into our hostels and additional hotel accommodation. 71 people have been referred into life-changing, drug rehabilitation programmes, many moving onto treatment within a matter of days of their initial consultation. That's 71 people who would more than likely still be struggling with drug dependency and misuse on the streets without our interventions - 71 people experiencing real change in their lives right now. Only five entrenched rough sleepers remain on the streets and we continue to work with them.

"We are committed to maintaining this improvement – there can be no going back!"

Read the full story here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24148.html

Cardiff Council outdoor sports and leisure courts reopen

Welsh Government has announced that, from today (Monday 22nd June), all outdoor sport and leisure facilities, with the exception of playgrounds and outdoor gyms, are allowed to open.

As a result, all of Cardiff Council's outdoor tennis courts, basketball courts and MUGAs (Multi-Use Games Areas) are in the process of being opened.

Safety inspections are currently being carried out and new signage being put in place to remind members of the public of the need to maintain the social distancing required under the terms of the Welsh Government lockdown restrictions.

For more information on the Coronavirus regulations, visit the Welsh Government's webpage here:
https://gov.wales/coronavirus-regulations-changes-monday-22-june

Top 5 tips for pest control this summer

We're experiencing an increase in calls and online enquiries into how to deal with pests and infestations.

Specifically, there appears to be an increase in rat sightings at the moment, possibly linked to more people being at home, as well as their normal food sources not being available. An increase in bird feeding is also accounting for the majority of our calls.

Please see our Top 5 Tips for avoiding pests in the summer months:

1. More of us have taken to the garden due to lockdown which has led to an increase in bird feeding. As lovely as it is to feed the birds in the garden, especially at the moment, it is important that you keep a look out for rats as, like the birds, they soon get to know there is a regular food source. You should not put food directly on the ground under any circumstances.
2. If you keep pets outdoors, such as rabbits and guinea pigs or have chickens, remember, their food is also an attractant to rats
3. If birdseed or pet food is stored in a shed, make sure it is in a sealed and hard container, otherwise rats will be able to gnaw into it
4. Garden sheds and decking are great places for rats to hide and nest under, keep an eye out for holes or runs appearing in these areas
5. If pests are tearing open your recycling bags, please rinse food packaging such as bottles, tins, jars and food trays thoroughly, before placing in the bags for collection.

If you do start noticing rat activity within the boundaries of your property, you have a responsibility to take action as it will only get worse if left untreated.

You can treat yourself or use a professional organisation such as Cardiff Council Pest Control Section who can offer advice or provide a low cost treatment service. They can be contacted on 029 2087 2934 or pestcontrol@cardiff.gov.uk.

Pest Control is not a statutory function but we offer a significantly subsidised service at £55 for 4 visits.

Further advice is available here:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Pests-pollution-and-food-hygiene/Pests-and-infestation/Pages/Pests-and-infestation.aspx

If you are a Council tenant you can request an order via connect to Cardiff on 029 2087 2087 (Option 2). If you are a Housing Association Tenant you should contact your Housing Association as they may have arrangements in place to deal with any rodent problems.

Cardiff parents benefit from positive support provided by Parents First

Parents First is a 1:1 psychology-led bespoke parenting service for children aged 0-18 across Cardiff.

The team has continued to offer a service to parents since Covid-19 restrictions came into place by adapting their method of service delivery using telephone and video calls.

Parents have engaged well with this method and have been able to benefit from the positive support provided by the team.

The team have been extremely positive and resilient throughout this period. As well as providing psychologically informed parenting support, they have worked closely

with other agencies to provide necessary practical advice to support families in response to the lockdown period.

For more information about Parents First visit:
https://www.cardifffamilies.co.uk/cardiff-parenting

Or contact Cardiff Family Gateway on 03000 133 133.

Diweddariad COVID-19: 22 Mehefin

Yn y diweddariad ar COVID-19 a gafwyd heddiw gan Gyngor Caerdydd: 'Newid Go lawn' - mae ymgyrch newydd wedi'i lansio yn y ddinas heddiw i adeiladu ar y llwyddiant diweddar o ran helpu pobl sy'n agored i niwed i adael y strydoedd; cyrtiau chwaraeon a hamdden awyr agored Cyngor Caerdydd i ail-agor; 5 awgrym da ar gyfer rheoli plâu'r haf hwn; a rhieni Caerdydd yn elwa o gymorth cadarnhaol gan Parents First.

Amser am Newid Go lawn

Mae ymgyrch newydd wedi'i lansio yn y ddinas heddiw i adeiladu ar y llwyddiant diweddar o ran helpu pobl sy'n agored i niwed i adael y strydoedd.

Mae ymgyrch Real Change yn ceisio parhau â'r gwaith a gyflawnwyd gan wasanaethau digartrefedd yn ystod cyfnod y cloi pan welwyd gostyngiad yn nifer y bobl a oedd yn cysgu ar y stryd i ffigurau sengl, a mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn dechrau manteisio ar wasanaethau sy'n newid bywydau yn y ddinas.

Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn benderfynol o beidio â cholli'r momentwm cadarnhaol a gyflawnwyd wrth helpu pobl i droi cefn ar y strydoedd, wrth i ganol y ddinas ddechrau dod yn fyw. Mae pob partner yn annog y cyhoedd i helpu i sicrhau newid go iawn a pharhaol i'r bobl sy'n agored i niwed a welant ar y stryd.

Mae'r ymgyrch yn gofyn i bobl beidio â rhoi eu newid sbâr i'r rhai sy'n cardota, ond yn hytrach cyfeirio pobl sy'n agored i niwed at y gwasanaethau a all weddnewid eu bywydau.

Anogir unrhyw un sy'n pryderu am unigolyn y dônt ar ei draws ar y strydoedd i alw am gymorth drwy decstio ' REALCHANGE ' i 80800, gan nodi lleoliad y person hwnnw. Yna, bydd tîm allgymorth digartref y ddinas yn cael ei anfon i weld yr unigolyn dan sylw i'w annog i adael y strydoedd.

Cafwyd llwyddiant sylweddol o ran cartrefu pobl ddigartref yn ystod y tri mis diwethaf, a dim ond llond dwrn o bobl sy'n parhau i gysgu ar y strydoedd. Mae llawer o lety o safon wedi'i sicrhau, gan gynnwys llety mewn dau westy mawr, ac mae gwasanaethau iechyd a chymorth wedi'u cynnig i helpu'r cleientiaid hyn sy'n agored i niwed i fynd i'r afael â'u hanghenion sylfaenol.

Roedd gwaith da eisoes yn mynd rhagddo i leihau'r nifer sy'n cysgu ar y stryd yn y ddinas diolch i waith y Tîm Allgymorth Digartrefedd Amlddisgyblaethol penigamp, ond ers cyfnod y cloi, mae mwy o gleientiaid sy'n agored i niwed nag erioed yn

ymgysylltu â gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau disodli cyffuriau a therapiwtig.

Mae mwy o lety a chymorth ar gael wedi bod yn ffactor allweddol yn y newid hwn ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod y ddarpariaeth ychwanegol hon yn parhau ar ôl i'r argyfwng ddod i ben. Fodd bynnag, newid allweddol arall fu diffyg cyfleoedd i gardota yn ystod cyfnod y cloi a llai o anogaeth i ymweld â chanol y ddinas.

Mae Real Change yn ceisio codi ymwybyddiaeth am yr ystod eang o wasanaethau sydd ar gael yng Nghaerdydd i helpu pobl ar y llwybr i ffwrdd o fywyd ar y strydoedd a'r llwyddiant sydd wedi'i gyflawni'n ddiweddar o ran gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl. Nod yr ymgyrch yw cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r ffordd orau o helpu gyda'r gwaith hwn a sut y gall unigolion, heb yr ymyriadau priodol, barhau i fyw yn yr awyr agored, yn gaeth i ffordd niweidiol o fyw.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, y Cynghorydd Lynda Thorne: "Ers i fesurau cyfnod y cloi ddod i rym, rydym wedi helpu 473 o unigolion i gael yn ein hosteli a'n llety ychwanegol mewn gwestai. Mae 71 o bobl wedi cael eu cyfeirio at raglenni adsefydlu cyffuriau sy'n newid bywydau, gyda llawer ohonynt yn symud i gael triniaeth ymhen ychydig ddyddiau i'w hymgynghoriad cychwynnol. Dyna 71 o bobl a fyddai'n fwy na thebyg yn dal i gael trafferthion gyda'u dibyniaeth ar gyffuriau a chamddefnyddio cyffuriau ar y strydoedd heb ein hymyriadau - mae 71 o bobl yn profi newid go iawn yn eu bywydau ar hyn o bryd. Dim ond pump o'r rheiny sydd wedi bod yn cysgu ar y stryd ers tro byd sydd dal yno ac rydym yn parhau i weithio gyda nhw.

"Rydym wedi ymrwymo i barhau i sicrhau'r gwelliant hwn - does dim troi yn ôl nawr!"

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24149.html

Cyrtiau chwaraeon a hamdden awyr agored Cyngor Caerdydd i ail-agor

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi o heddiw (Dydd Llun 22 Mehefin), y bydd yr holl gyfleusterau chwaraeon a hamdden awyr agored, ac eithrio meysydd chwarae plant a champfeydd awyr agored, yn cael agor.

O ganlyniad, mae holl gyrtiau tennis, pêl-fasged ac AGADd (Ardal Gemau Aml-ddefnydd) Cyngor Caerdydd yn y broses o gael eu hagor.

Mae archwiliadau diogelwch yn cael eu cynnal ar hyn o bryd ac arwyddion newydd yn cael eu cod i atgoffa aelodau'r cyhoedd o'r angen i gadw'r pellter cymdeithasol angenrheidiol o dan delerau cyfyngiadau cyfnod y clo Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth am y rheoliadau Coronafeirws, ewch i wefan Llywodraeth Cymru yma:
https://llyw.cymru/rheoliadau-coronafeirws-canllawiau

5 awgrym da ar gyfer rheoli plâu'r haf hwn

Rydym yn gweld cynnydd mewn galwadau ac ymholiadau ar-lein yn ymwneud â sut i ddelio gyda phlâu a heigiadau.

Yn benodol, ymddengys fod cynnydd yn nifer y llygod mawr ar hyn o bryd, yn gysylltiedig o bosibl â rhagor o bobl yn aros gartref, yn ogystal â diffyg eu ffynonellau bwyd arferol. Mae cynnydd mewn bwydo adar hefyd yn cyfrif am fwyafrif ein galwadau.

Dyma ein 5 Awgrym Da i osgoi plâu yn ystod misoedd yr haf:

1. Mae mwy ohonom ni wedi dechrau defnyddio'r ardd oherwydd y cyfnod cloi sydd wedi arwain at fwy o bobl yn bwydo adar. Er ei bod yn wych bwydo'r adar yn yr ardd, yn arbennig ar hyn o bryd, mae'n bwysig eich bod yn cadw llygad am lygod mawr, fel y byddant yn fuan iawn, fel yr adar, yn dysgu bod bwyd ar gael yn gyson. Ni ddylech roi bwyd uniongyrchol ar y tir dan unrhyw amgylchiadau.
2. Os oes gennych anifeiliaid anwes y tu allan, megis cwningod a moch cwta, neu eich bod yn cadw ieir, cofiwch fod eu bwyd hefyd yn denu llygod mawr.
3. Os ydych yn cadw hadau adar neu fwyd anifeiliaid anwes mewn sied, gwnewch yn siŵr eu bod mewn cynhwysydd wedi'i selio a chaled, bydd y llygod mawr fel arall yn ei gnoi.
4. Mae sied yr ardd a deciau gardd yn lle gwych i'r llygod mawr guddio a nythu o danynt, cadwch lygad am dyllau neu lwybrau yn ymddangos yn yr ardaloedd hyn.
5. Os yw plâu yn rhwygo eich bagiau ailgylchu yn agored, golchwch y pecynnu bwyd fel poteli, tuniau, jariau a hambyrddau bwyd yn drylwyr, cyn eu rhoi yn y bagiau i'w casglu.

Os ydych chi'n dechrau sylwi ar weithgarwch llygod mawr o fewn ffiniau eich eiddo, mae gennych gyfrifoldeb i weithredu gan y bydd yn gwaethygu os byddwch yn ei adael heb ei drin.

Gallwch drin y broblem eich hun neu ddefnyddio sefydliad proffesiynol fel Adran Rheoli Plâu Cyngor Caerdydd sy'n gallu cynnig cyngor neu ddarparu gwasanaeth trin cost isel. Gellir cysylltu â nhw ar 02920872934 neu rheoliplau@caerdydd.gov.uk. Nid yw Rheoli Plâu yn swyddogaeth statudol, ond rydym yn cynnig gwasanaeth â chymhorthdal sylweddol o £55 am 4 ymweliad.

Mae rhagor o gyngor ar gael yma:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Pests-pollution-and-food-hygiene/Pests-and-infestation/Pages/Pests-and-infestation.aspx

Os ydych yn denant i'r Cyngor gallwch wneud cais am archeb drwy Cysylltu â Chaerdydd ar 029 2087 2088 (Opsiwn 2). Os ydych yn Denant i Gymdeithas Dai, dylech gysylltu â'ch Cymdeithas Dai oherwydd efallai y bydd ganddynt drefniadau ar waith i ddelio ag unrhyw broblemau cnofilod.

Rhieni Caerdydd yn elwa o gymorth cadarnhaol gan Parents First

Rhieni'n Gyntaf yw'r gwasanaeth 1:1 dan arweiniad seicolegol sy'n cael ei deilwra i rieni plant o 0-18 oed ar draws Caerdydd.

Mae'r tim wedi parhau i gynnig gwasanaeth i rieni yn dilyn y cyfyngiadau trwy addasu'r dull o ddraparu gwasanaeth gan gynnig galwadau ffon a fidio. Mae rhieni wedi ymateb yn dda gyda'r dull yma ac mae nifer wedi manteisio o'r gefnogaeth cadarnhaol gan y tim.

Mae'r tim wedi dangos gwydnwch a phositifrwydd drwy gydol y cyfnod. Yn ogystal a'r gwaith rhianta seicolegol, maent wedi cydweithio gydag asiantaethau eraill i gynnig cyngor ymarferol i deluoedd wrth ymateb i'r cyfnod cyfyngedig yma.

I gael rhagor o wybodaeth am Parents First ewch i:
https://www.cardifffamilies.co.uk/cardiff-parenting

Neu cysylltwch â'r Porth i Deuluoedd Caerdydd ar 03000 133 133.